Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Ysgolheigion Bach Little Scholars' Nursery

**Lôn Bach**
**Caergeiliog**
**Ynys Môn**
**LL65 3NP**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Meithrinfa Ysgolheigion Bach Little Scholars' Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Ysgolheigion Bach Little Scholars' Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Lindsea Roberts |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Elizabeth Scholes a Rachel Ode |
| Nifer y lleoedd | 57 |
| Ystod oedran y plant | Rhwng 6 mis a 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 13 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 10 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 7.30am a 6.00pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Awst 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ionawr 2011 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/07/2024 |
| Ychydig iawn o blant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu mwy o gyfleoedd i blant ddatrys problemau yn annibynnol

A2 Gwella ansawdd yr adnoddau yn yr ardal awyr agored i gefnogi profiadau dysgu a chwarae plant

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn gwneud dewisiadau effeithiol ac annibynnol yn ystod eu profiadau chwarae a dysgu. Maent yn barod i fanteisio ar y rhyddid i symud rhwng y gweithgareddau, y profiadau a’r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae bron pob un ohonynt yn hapus pan fyddant yn cyrraedd ac yn mwynhau cael eu cyfarch yn wresog gan eu gweithwyr allweddol, sy’n eu helpu i ymgynefino â’u harferion yn dda. Mae plant yn defnyddio’r adnoddau yn annibynnol ac ar unwaith wedi iddynt gyrraedd. Er enghraifft, mae plant yn chwarae’n hyderus yn y twb tywod, yn gwisgo’n frwdfrydig mewn gwisgoedd chwarae rôl ac yn trin a thrafod llyfrau a theganau yn synhwyrol. Caiff plant eu cynorthwyo yn y gweithgareddau yn fedrus gan ymarferwyr, ac o ganlyniad, mae plant yn cynnig eu barn ac yn mynegi eu teimladau’n bwrpasol. Er enghraifft, pan fydd plant yn penderfynu cymryd rhan mewn gweithgaredd penodol ac os byddant yn mynegi ffafriaeth i chwarae dan do neu yn yr awyr agored.

Mae bron pob un o’r plant yn ymgynefino’n gyflym ac yn teimlo’n eithriadol o gyfforddus o fewn y lleoliad. Maent yn ymdopi’n llwyddiannus wrth adael eu rhieni a’u gofalwyr, ac yn amlwg yn teimlo’n ddiogel. Mae bron pob un o’r plant yn rhyngweithio’n gadarnhaol â’i gilydd, a gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn achub ar gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau cymdeithasol trwy siarad a thrafod tra’n chwarae gyda’i gilydd. Er enghraifft, mae plant yn cydweithredu ac yn rhyngweithio’n frwdfrydig ar y cerrig camu ac wrth fesur a llenwi cynwysyddion â dŵr.

Mae bron pob un o’r plant yn parchu teimladau a diddordebau plant eraill ac yn dysgu cymryd eu tro yn dda. Er enghraifft, mae plant yn rhannu’r adnoddau yn synhwyrol yn yr ardaloedd ymchwilio ac wrth osod y bwrdd yn ardal y gegin. O ganlyniad, maent yn datblygu medrau cymdeithasol cadarnhaol. Mae bron pob un o’r plant yn cynorthwyo’i gilydd yn dda yn ystod gweithgareddau, er enghraifft trwy weithio gyda’i gilydd i lenwi padelli â dŵr, blodau a dail a dod o hyd i anifeiliaid tegan yn ardal y dŵr a’r llysnafedd, a’u didoli.

Mae plant yn datblygu perthnasoedd clòs a chynnes â’r ymarferwyr ac yn rhyngweithio’n llwyddiannus ag ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn gyfforddus a hyderus i ofyn i ymarferwyr am gymorth. Trwy’r system gweithwyr allweddol, mae ymarferwyr yn ymwybodol o anghenion unigol plant, ac yn cynorthwyo, yn holi ac yn tarfu ar blant, pan fydd angen, i ymestyn eu lles a’u medrau cymdeithasol. Mae’r rhan fwyaf o blant yn frwdfrydig yn eu chwarae ac yn rheoli eu hymddygiad eu hunain yn effeithiol. Maent yn gyfarwydd iawn â’r arferion dyddiol, fel amser byrbryd a chyfnodau cofrestru. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dyfalbarhau â thasgau, ac mae llawer ohonynt yn treulio cyfnodau amser estynedig yn cymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, mae’r plant iau yn mwynhau chwarae â phasta ac ewyn eillio, ac mae’r plant hŷn yn rheoli ceir â theclyn rheoli o bell yn fedrus.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da â’u medrau cymdeithasol. Maent yn defnyddio fframiau dringo a llithrennau yn hyderus ac yn creu gwaith celf diddorol sy’n cael ei arddangos yn bwrpasol yn ardal oriel y lleoliad. Mae bron pob un o’r plant yn dewis ac yn defnyddio adnoddau’n ddoeth yn ystod amseroedd byrbryd, ac yn golchi a sychu eu dwylo yn annibynnol cyn bwyta ac ar ôl gweithgareddau. Mae plant yn mwynhau ymgynnull o gwmpas y bwrdd i fwyta, ac mae’r plant hŷn yn gweini llaeth neu ddŵr iddyn nhw eu hunain yn fedrus.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn frwdfrydig yn ystod gweithgareddau ac yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn defnyddio ystod eang o fedrau yn dda, sy’n gwella’u gwybodaeth a’u dealltwriaeth yn bwrpasol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwrando’n ofalus ar gyfarwyddiadau ac yn eu dilyn yn synhwyrol, er enghraifft wrth lenwi a gwagio clorian gydbwyso yn y twb tywod. Maent yn siarad yn frwdfrydig â’i gilydd tra’n ymgymryd â chyfnodau estynedig o chwarae creadigol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb i awgrymiadau plant eraill yn gadarnhaol ac yn rhannu syniadau am sut i gwblhau tasgau yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant yn gweithio gyda’i gilydd yn dda i olchi ceir tegan â brwshys dannedd ac ewyn.

Mae llawer o blant yn gwneud eu gorau i ddefnyddio’r Gymraeg yn annibynnol, gydag arweiniad ac anogaeth gan ymarferwyr. Maent yn mwynhau ymuno â rhigymau traddodiadol a’u canu gyda’i gilydd ar ôl sbardunau a symudiadau ar sgrin ryngweithiol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn trafod llyfrau yn hyderus. Maent yn ymgysylltu’n dda â storïau ac yn mwynhau trafod y digwyddiadau a’r lluniau yn y llyfrau gyda’u ffrindiau. Maent yn dangos diddordeb wrth ddisgrifio gwahanol gymeriadau ac yn ystyried canlyniadau gweithredoedd yn feddylgar. Er enghraifft, mae plant yn ymateb yn frwdfrydig i chwedlau, sy’n sôn am anturiaethau gwahanol greaduriaid y môr.

Yn ystod eu chwarae, mae llawer o blant yn creu marciau pwrpasol gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau fel sialc, paent a phennau ysgrifennu lliw. Maent yn dechrau datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol ac yn recordio negeseuon yn hyderus ar ôl ateb y ffôn, ac yn creu rhestrau siopa ar fyrddau ysgrifennu. Mae llawer ohonynt yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac yn esbonio diben y marciau y maent yn eu creu yn hyderus.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn defnyddio iaith fathemategol briodol mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae ganddynt fedrau rhifedd effeithiol ac maent yn mwynhau arbrofi ag ystod eang o offer mathemategol. Maent yn cyfrif yn hyderus wrth gynnig gwahanol brydau bwyd i’w ffrindiau yn ardal chwarae rôl y gegin. Mae plant yn trafod ac yn cymharu’r morfilod, y siarcod a’r pysgod o wahanol feintiau yn yr ardaloedd ymchwilio awyr agored, ac yn dangos dealltwriaeth gynyddol o briodoleddau siapiau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol yn llwyddiannus trwy reidio beiciau ar yr iard a balansio wrth iddynt ddringo ar yr offer antur. Maent yn mwynhau gweithio gyda’i gilydd i addasu eu syniadau, er enghraifft wrth osod eitemau o setiau te yn ofalus ar hambyrddau, cyn eu cario at y bwrdd. Mae’r agweddau cadarnhaol hyn at brofiadau bob dydd yn cael effaith dda ar ddysgu plant a’u medrau cymdeithasol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau digidol yn effeithiol ac yn mwynhau’r ystod o gyfleoedd pwrpasol sydd ar gael iddynt, fel datblygu eu medrau iaith a rhifedd gan ddefnyddio apiau ar sgriniau digidol a chyfrifiaduron llechen. Yn ychwanegol, mae plant yn rheoli cyfeiriad teganau electronig yn dda ac yn cyfathrebu’n frwdfrydig trwy ddefnyddio dyfeisiau siarad.

**Gofal a datblygiad:  Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o’u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel. Maent yn cydymffurfio â gofynion eu rolau a’u cyfrifoldebau i amddiffyn plant yn fedrus, ac maent yn diweddaru eu hyfforddiant diogelu mewn modd amserol. Maent yn gwneud defnydd da o ap electronig i rannu eu harsylwadau a’u pryderon, sy’n cynnwys adrodd am anafiadau cynharach plant. Mae ymarferwyr yn cwblhau gwiriadau iechyd a diogelwch pwrpasol a dyddiol o’r amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored, ac offer y lleoliad. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae gan ymarferwyr dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol ac maent yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn briodol. Caiff damweiniau sy’n digwydd o fewn y lleoliad eu cofnodi’n gywir a’u dadansoddi’n briodol. Mae ymarferwyr yn dilyn y polisi gweinyddu meddyginiaethau yn hyderus ac yn deall eu cyfrifoldebau o ran gweinyddu a storio meddyginiaeth yn ddiogel. Maent yn gweithredu eu hyfforddiant hylendid bwyd yn dda, ac mae gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithlon. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn llwyddiannus trwy ddarparu prydau a byrbrydau maethlon, diodydd iach a gweithgareddau corfforol ar gyfer plant. Maent yn cynorthwyo plant â gofynion meddygol a deietegol yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn sicrhau urddas a phreifatrwydd plant ac yn dilyn arferion effeithlon wrth newid clytiau. Maent yn cadw cofnodion pwrpasol, sy’n cynnwys nodiadau rheolaidd ar gyfer rhieni. Mae ymarferwyr yn defnyddio’r polisi ymddygiad cadarnhaol yn dda, sy’n sicrhau bod plant yn cadw o fewn ffiniau a disgwyliadau yn synhwyrol. Mae ymarferwyr yn gweithredu system gofrestru effeithiol, sy’n cynnwys sicrhau bod cofnodion cydsynio ar waith ac yn cael eu monitro’n rheolaidd.

Mae perthnasoedd cynnes a naturiol ymarferwyr â phlant yn sicrhau eu bod yn trin plant â gofal a pharch. Maent yn garedig ac yn annog plant i ymddwyn yn gadarnhaol, gan eu haddysgu i rannu, aros a chymryd eu tro yn gwrtais. Maent yn canmol y plant yn frwdfrydig, sy’n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu eu medrau, eu dealltwriaeth o arferion a’u hunanhyder. Yn ystod amseroedd byrbryd, mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i blant gymdeithasu o gwmpas byrddau sy’n briodol i oedran. Maent yn defnyddio’r cyfleoedd hyn yn dda i ryngweithio â

phlant a thrafod eu hoffterau a'u casbethau. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i drafod pam mae dipio gwahanol fwydydd mewn diodydd yn newid eu gweadau a'u blasau.

Mae gan ymarferwyr weithdrefnau effeithiol ar waith i nodi anghenion a diddordebau plant, ac maent yn eu harsylwi'n sensitif ac yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da yn unol â'u cyfnod datblygu. Ymestynnir hyn ymhellach trwy gyfathrebu effeithiol â rhieni. Yn ychwanegol, mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gysylltiadau cryf ag asiantaethau allanol, sy'n cynnwys arweiniad gan swyddogion cymorth o'r awdurdod lleol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae dulliau addysgu effeithiol ymarferwyr yn cymell plant i ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth plant. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau sy'n annog plant i weithio gyda'i gilydd yn bwrpasol a datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i gymharu cerrig mân a chregyn o wahanol feintiau yn yr ardal awyr agored a gwerthu gwahanol flasau o hufen iâ yn y siop lan y môr.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ac annog trafodaethau diddorol â phlant tra byddant yn cymryd rhan mewn profiadau dysgu a chwarae. Er enghraifft, maent yn cymell plant i beintio'u hwynebau eu hunain o'u hadlewyrchiad mewn drych. Mae ymarferwyr yn ymyrryd yn briodol yn ystod gweithgareddau; fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn darparu digon o gyfleoedd i blant feddwl drostynt eu hunain a datrys problemau yn annibynnol ar gymorth oedolyn.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol a pherthnasol sy'n ystyried diddordebau plant yn effeithiol. Maent yn addasu eu cynllunio yn synhwyrol i gynnal diddordeb a brwdfrydedd plant. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn dysgu trwy amrywiaeth o heriau diddorol, fel adeiladu tyrau gan ddefnyddio siapiau 3D a defnyddio plu a darnau papur i addurno siapiau eu dwylo.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd diddorol i ddatblygu medrau llythrennedd plant ac yn eu holi'n bwrpasol yn ystod chwarae, yn enwedig dan do. Er enghraifft, mae plant yn trafod sut i greu gwahanol siapiau â'u cyrff ac yn siarad am y gwahanol farciau a wnânt â sialciau ar fyrddau. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau Cymraeg llafar yn briodol ac yn darparu cyfleoedd da i blant ganu rhigymau Cymraeg traddodiadol. Maent yn datblygu medrau rhifedd a digidol plant yn effeithiol. Maent yn herio plant yn bwrpasol i ddidoli a chyfrif dail a blodau a mesur pellterau â thâp mesur. Maent hefyd yn annog plant i dynnu ffotograffau yn hyderus â llechi electronig.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'u harsylwadau o gyflawniadau plant yn effeithiol i gofnodi eu cynnydd a chynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae hyn hefyd yn eu helpu i roi gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant mewn amrywiaeth o ffyrdd, sy'n cynnwys cyfryngau cymdeithasol diogel.

Mae ymarferwyr yn annog plant i arbrofi a mentro yn eu chwarae, sy’n datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cynorthwyo plant i ddringo ar offer antur a reidio beiciau. Maent hefyd yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol, fel galluogi plant i arbrofi â gwahanol rythmau gan ddefnyddio rhubanau tra’n dawnsio ac yn canu. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o’r plant yn ymgysylltu’n llawn â’u chwarae.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn dda, trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a thrwy astudio hanes yr ardal leol, fel ymweld â melin wynt gyfagos. Maent hefyd yn dathlu amrywiaeth ac yn annog plant i ddysgu am wahanol gymunedau a’r byd o’u cwmpas. Mae hyn yn cynnwys trafod llyfrau am blant o wledydd eraill a thrwy gymharu gwahanol steiliau gwallt o wahanol ddiwylliannau. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd i blant ddysgu am wyliau, fel Diwali a’r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd diogel lle mae plant yn ffynnu. Maent yn cadw cofnodion manwl o bob un o’r plant wrth iddynt gyrraedd a gadael, sy’n cynnwys ymarferwyr ac ymwelwyr. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn cadw’r prif ddrysau dan glo ac yn cadw asesiadau ysgrifenedig sy’n amlinellu’r camau i leihau neu atal unrhyw risgiau i’r plant. Mae’r rhain yn cyfrannu at y rhestr wirio ddyddiol yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae ymarferwyr yn lleihau’r risgiau i ddiogelwch plant. Mae ymarferwyr yn cynnal driliau tân rheolaidd ar y cyd â’r ysgol, fel bod plant yn dod yn gyfarwydd â gweithdrefnau. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau bod ganddynt dystysgrifau diogelwch ac yswiriant priodol ar waith.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn derbyn gofal ac addysg mewn amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar, sy’n gwneud iddynt deimlo’n gartrefol. Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu y tu mewn i’r adeilad yn dda ac yn symbylu chwarae a dychymyg plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr wedi trefnu’r ardaloedd dan do yn ofalus i ddarparu ystod eang o brofiadau ysgogol sy’n annog plant i symud o un gweithgaredd i un arall yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynnig dewis da o weithgareddau i blant chwarae rôl yn ardal y gegin, fel paratoi prydau bwyd dychmygus i’w gilydd. Mae ardaloedd helaeth yn yr awyr agored ar gael i alluogi plant i ddatblygu’n gorfforol, yn greadigol a dod yn chwilfrydig. Fodd bynnag, nid yw ansawdd y ddarpariaeth yn yr ardaloedd awyr agored a’r adnoddau allanol yn ddigon effeithiol i gefnogi a chyfoethogi profiadau dysgu plant ymhellach, ac nid ydynt yn cefnogi chwarae a dysgu’r plant yn ddigon da.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleusterau da i blant ddefnyddio’r toiled a basnau golchi dwylo yn annibynnol, a cheir ardaloedd sydd wedi’u hadeiladu’n bwrpasol ar gyfer newid clytiau, sy’n sicrhau parch ac urddas i blant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod arddangosfeydd deniadol yn creu ymdeimlad cryf o berthyn i’r lleoliad. Er enghraifft, caiff gwaith creadigol plant a ffotograffau o’u cynhyrchion eu harddangos yn dda. Mae ardal dawel a salon trin gwallt hefyd wedi cael eu trefnu’n bwrpasol i roi cyfleoedd i blant orffwys neu chwarae rôl yn annibynnol.

Mae ymarferwyr yn cadw adnoddau ar lefel isel i alluogi plant i ddewis offer a dilyn eu diddordebau unigol yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant yn helpu eu hunain i'r gwisgoedd a'r adnoddau yn yr ardal gwisgo i fyny yn hyderus, ac mae'r plant iau yn eistedd yn fodlon mewn cadeiriau isel gyda hambyrddau yn ystod amser byrbryd. Mae plant yn gyfarwydd iawn â dod o hyd i offer a'i ddychwelyd i'r lleoedd priodol, ac yn arbrofi drostynt eu hunain, er enghraifft wrth yr ardaloedd dŵr ac adeiladu. Mae safon y dodrefn, yr offer, y teganau a'r adnoddau yn uchel ac yn cael eu cynnal yn dda. Mae ymarferwyr hefyd yn ymestyn datblygiad personol a chymdeithasol plant yn llwyddiannus trwy ganiatáu mynediad hawdd iddynt at deganau a llyfrau amlddiwylliannol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da**

Mae arweinwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol sy'n canolbwyntio'n ddiwyd ar wella darpariaeth a deilliannau plant. Mae ganddynt weledigaeth glir ac yn gweithio gyda'i gilydd yn gydwybodol i ddarparu gofal a chymorth effeithiol sy'n ymestyn dysgu'r plant yn fuddiol. O ganlyniad i'w hagweddau cadarnhaol a'u harferion cadarn, mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu cadarnhaol sy'n darparu profiadau pwrpasol ar gyfer plant, yn enwedig dan do.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferwyr yn darparu gofal bugeiliol cryf a chadarnhaol ar gyfer plant. Mae hyn yn creu ymdeimlad cryf o berthyn o fewn y lleoliad. Mae'r ethos gofalgar ac anogol yn annog plant i wneud eu gorau a dyfalbarhau yn ystod sesiynau dysgu a chwarae. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm ac yn mynychu hyfforddiant priodol i wella'u harferion addysgu a gofal. O ganlyniad, maent wedi'u cymell ac yn awyddus i lwyddo. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau eu bod yn diweddaru dogfennau, polisïau ac arferion statudol y lleoliad, ac yn dilyn prosesau recriwtio diogel yn ddiwyd.

Mae arweinwyr yn canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau wedi'u cynllunio'n dda i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach. Maent yn cynnal prosesau hunanwerthuso effeithiol, sy'n arwain at dargedau cywir ar gyfer gwella. Mae hyn yn eu helpu i nodi cryfderau a meysydd sydd angen sylw, yn effeithiol. Er enghraifft, maent wedi canolbwyntio yn ddiweddar ar wella medrau Cymraeg plant a darparu ystod ehangach o brofiadau corfforol ar gyfer plant.

Mae arweinwyr yn ystyried barn pawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys rhieni a gofalwyr y maent yn cynnal cyswllt rheolaidd â nhw am ddatblygiad eu plant. Maent yn cynnal trafodaethau buddiol â'r holl randdeiliaid i wella darpariaeth, ac yn gweithredu ar gyngor gan asiantaethau cymorth. O ganlyniad, mae arweinwyr wedi addasu eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol ac yn darparu llyfrynnau gwybodaeth dyddiol ar gyfer rhieni gyda gwybodaeth berthnasol am gyflawniadau eu plant.

Mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o bartneriaethau buddiol i helpu cefnogi dealltwriaeth plant o'u 'cynefin' neu'u hardal leol. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn ymweld â melinau gwynt a chanolfannau bywyd gwyllt cyfagos, ac yn defnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael ar safle'r ysgol. Yn ychwanegol, mae'r gwasanaethau brys

yn ymweld â'r lleoliad i drafod eu rolau o fewn y gymuned ac mae cerddorion yn ymweld i alluogi plant i ganu a dawnsio gan ddefnyddio offerynnau traddodiadol. Mae'r lleoliad yn rhannu'r safle gyda'r ysgol leol, ac mae ymarferwyr yn gweithio'n eithriadol o dda gyda staff yr ysgol i hwyluso'r broses bontio wrth i blant symud i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n effeithlon ac yn defnyddio'r gyllideb yn ofalus trwy flaenoriaethu gwariant yn erbyn blaenoriaethau'r lleoliad. Er enghraifft, maent wedi gwella'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd dysgu dan do ac wedi darparu ystod effeithiol o adnoddau digidol ar gyfer plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |
| 28 | The registered person must ensure all the required information has been gathered in the staff employment files to ascertain their suitability. | Cyflawnwyd |
| 20 | The registered person must ensure younger children have rich play and learning opportunities and experiences. The registered person must ensure toys and resources for younger children are of good quality and activities provided aid children's development and build on their natural curiosity. The registered person must ensure the environment encourages all children to be confident and independent to follow their own interests. They must ensure activities and experiences for all children have value and purpose. | Cyflawnwyd |
| 25 | The registered person must ensure risk assessments are fully reflective of the settings premises, activities, toys resources, and any outings children participate in. The registered person must ensure all staff understand and follow the current infection control guidance in relation to nappy changing procedures and implement robust and regular cleaning routines for the premises, toys and resources. | Cyflawnwyd |
| 30 | The registered person must ensure all of the required information has been collated in the children's individual records. The registered person must ensure staff record the hours of their own and children's daily attendance. The registered person must ensure there is a clear and consistent process to record parents / carers acknowledgement of children's accidents and incidents. The registered person must make sure staff update concern logs with actions taken and whether the matters have been resolved or are being monitored. | Cyflawnwyd |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/09/2024